

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Hysbysiad Penderfyniad –Cyfarfod Arbennig, 23 Ionawr, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#). [Insert link]

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe and N. Wood

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr I. Buckley, C. Franks, W. Gilligan, G. John and Dr. I.J. Johnson.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y M. Evans (Aelod Lleyg).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. ARCHWILIAD O DDATGANIAD ARIANNOL 2021/22 – ADRODD I'R RHAI SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU (PW) –

PENDERFYNWYD -

(1) Bod adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar yr archwiliad o Ddatganiadau Ariannol y Cyngor ar gyfer 2021/22 yn cael ei gymeradwyo ac argymhell y datganiadau ariannol gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol i'w llofnodi gan y rhai a awdurdodwyd.

(2) Cytundeb ar y mân newidiadau iAtodiad A. Y rhai yw:

- Gwall teipograffyddol yn y paragraff seilwaith;
- Agor Cronfeydd Wrth Gefn Eraill mewn datgeliad o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd;

- Nodyn 30 Costau archwilio (gwahaniaeth blwyddyn flaenorol);
- Diweddariadau i'r cyfeiriadau nodiadau.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1&2) Ar ôl ystyried canlyniadau'r archwiliad o Ddatganiadau Ariannol y Cyngor ar gyfer 2021/22.

EITEM AGENDA 5. CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN SEILIEDIG AR RISG ARCHWILIO MEWNOL 2022-23 (PGAMR) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Blynnyddol Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2022-23.

Rhesymau dros benderfyniadau

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL WEDI'I DIWEDDARU (PGAMR) -

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.
- (2) Cymeradwyo'r rhestr o eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf, 27 Chwefror 2023.
- (3) O ran gwaith adolygu archwilio, y dylid hysbysu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o unrhyw bryderon neu unrhyw beth arwyddocaol a allai fod gan Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1&2) Sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymwybodol ac yn cael gwybod am gynnydd y rhaglen waith arfaethedig.

- (3) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw beth o bwys neu bryder.